


Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Biodiversity Partnership *Yr Hyn a Gyflawnwyd yn 2012 / 2012 Achievements*



- Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin** yn bartneriaeth o gyrrff sy'n ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd y sir.
- Hwylusir y Bartneriaeth gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor a chaiff y Bartneriaeth grant blynyddol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
- Mae gwaith y partneriaid yn helpu i weithredu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, sy'n cynnwys cyfres o gynlluniau sy'n ymdrin â'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd yn y sir ac sydd dan fygythiad neu'n prnhau'n genedlaethol, yn ogystal â'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n destun pryder yn lleol – www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk.
- Er mwyn i'r camau i ddiogelu rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lwyddo, yn aml bydd angen cydweithio mewn partneriaeth gan nifer o unigolion a sefydliadau gan gynnwys perchenogion tir, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau gwarchod bywyd gwyllt, awdurdodau lleol a diwydiant.
- Mae cyfraniad gwirfoddolwyr wedi bod yn amhrisiadwy i lwyddiant amcanion y cynllun.
- Mae cynyddu ymwybyddiaeth ac addysgu ynghylch pwysigrwydd bioamrywiaeth yn ein bywydau, a'r bygythiadau i fioamrywiaeth, yn agweddau pwysig ar waith y partneriaid.
- Crynodeb yw hwn o'r hyn a gyflawnwyd gan y partneriaid yn 2012, yn aml drwy gydweithio i warchod ac i wella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.

- The **Carmarthenshire Biodiversity Partnership** is a partnership of organisations concerned with the conservation of the county's wildlife and habitats.
- The Partnership is facilitated by the Council's Biodiversity Officer and receives annual grant funding from the Countryside Council for Wales.
- The partners' work helps to implement the Local Biodiversity Action Plan, which contains a series of plans covering the nationally threatened or declining species and habitats in the county, as well as species and habitats of local concern – www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk.
- If actions to safeguard a particular species or habitat or are to succeed, they often require a number of individuals and organisations to work together in partnership - including land owners, government agencies, wildlife conservation groups, local authorities and industry.
- The contribution of volunteers has been invaluable in the success of the plan's objectives.
- Raising awareness and education of the importance of biodiversity to our lives, and the threats to it, are important aspects of the partners' work.
- This is a summary of the achievements made by the partners in 2012, often working together, to conserve and enhance Carmarthenshire's diverse range of habitats and species.

***Pwysigrwydd Bioamrywiaeth – ni allwn fyw hebdi!
Biodiversity matters – we can't live without it!***





© J. Hartley

Y pathew yw un o'n mamaliaid mwyaf swil. Erbyn diwedd 2012, yn sgil ymdrechion Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Parciau Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin, gwirfoddolwyr ac arbenigwyr lleol, mae gan chwe safle flychau pathewod bellach, sy'n cael eu monitro a chanfuwyd bod pathewod ar o leiaf dri safle newydd eleni.

Dormice are one of our most elusive mammals and the county is an important national stronghold for the species. By the end of 2012, through the efforts of the Wildlife Trust (WT), NBGW, CCC Country Parks, volunteers and local experts, six sites now have dormouse boxes that are being monitored and at least three new sites have been found to have dormouse this year.

Mae Coed Cymru yn gweithio yn y sir i helpu perchenogion i reoli eu coetiroedd. Yn 2012, cynhaliwyd 74 o ymweliadau ymgynghorol a daeth 226 o hectarau (37 o goetiroedd) i gael eu rheoli'n ffafriol. Mae coetiroedd yn ffynhonnell danwydd inni, yn sefydlogi priddoedd, yn helpu i reoli'r hinsawdd ac yn darparu lle hamdden a thwristiaeth arbennig.

Coed Cymru works in the county to help owners to manage their woodlands. In 2012 74 advisory visits were made and 226 Ha of woodland were brought into favourable management (37 woodlands). Woodlands provide us with fuel, stabilise soils, help regulate the climate, are home to some of our most threatened species and provide special places for recreation and tourism.



Ar hyd ein harfordir, mae gwaith wedi'i wneud gan y Cyngor, y Comisiwn Coedwigaeth a'r Weinyddiaeth Amddiffyn i glirio'r planhigyn ymledol, rhafnwydden y môr, o'n twyni tywod. Cynefinoedd ein twyni tywod yw rhai o'r pwysicaf yn ein gwlad – mae gennym fwy o dwyni na bron holl siroedd eraill Cymru. Mae twyni tywod yn helpu i warchod ein harfordir, maent yn gartref i lawer o rywogaethau pwysig o blanhigion ac anifeiliaid ac maent yn helpu i gynnal diwydiant twristiaeth Sir Gaerfyrddin.

All along our coast work has been undertaken by the Council, FCW and MOD to clear the invasive sea buckthorn from our sand dunes. Our sand dune habitats are some of the most important in the country - we have more dunes than nearly all of the other Welsh counties. Sand dunes help protect our coast, are home to many important species of plant and animals and help support Carmarthenshire's tourism industry.



Nid maint yn unig sy'n cyfrif – rhai o'n rhywogaethau lleiaf yw rhai o'n rhywogaethau pwysicaf.

Ceir mwsoglau ym mhobman a gallant roi rhybuddion cynnar, pwysig o gynnydd mewn llygredd atmosfferig. Maent yn helpu i ddargadw dŵr a lleithder, i ffrwythloni a sefydlogi'r pridd ac yn helpu i reoli llifogydd. Gwneir darganfyddiadau newydd yn Sir Gaerfyrddin drwy'r amser – mae math o fwsogl sy'n newydd i wyddoniaeth wedi'i ddarganfod yn y sir!

Size isn't everything - some of our most important species are also our smallest. Mosses are found everywhere and can provide important early warnings of atmospheric pollution. They help retain water and humidity, fertilize and stabilize the soil and help control flooding. New discoveries are made in Carmarthenshire all the time - a moss has recently been found in the county which is new to science! They can also inform us about climate change – a number of epiphytic moss species that were largely restricted to Mediterranean Europe and the Atlantic fringe of Britain have increased dramatically in south Wales, or arrived anew – perhaps predicting an increasingly wet, warm environment.



Yn 2012 treuliodd gwirfoddolwyr yr hyn sy'n cyfateb i bron 1,500 o ddiwrnodau yn gweithio ar brosiectau amgylcheddol yn y sir. Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n werthfawr i warchod cynefinoedd a rhywogaethau Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae gwirfoddolwyr yn cadw'n heini, yn mynd yn ffrindiau ag eraill ac yn gweld lleoedd newydd! Mae gwirfoddolwyr yn helpu sefydliadau megis: Cadwch Gymru'n Daclus, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, BTCV, Butterfly Conservation (BC) Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a'n Parciau Gwledig.

In 2012 volunteers spent the equivalent of almost 1500 days working on environmental projects in the county. Volunteers make a valuable contribution to the conservation of Carmarthenshire's habitats and species. In addition volunteers keep fit, make friends and see new places! Volunteers help organisations such as: KWT, NT, WT, BTCV, BC, NBGW and our Country Parks.



© L.Wilberforce

- *Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Cyngor Sir Caerfyrddin a'r WWT (yr Ymddiriedolaeth Adar Dŵr a Gwlyptir) wedi trefnu a chynnal seminarau bioamrywiaeth blynyddol i ddisgyblion chweched dosbarth.*
- *Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynhyrchu cyflwyniad sy'n ymdrin â bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin, ac sy'n cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm, i ddisgyblion Blwyddyn 10.*
- *Cafodd sesiynau ynghylch pwysigrwydd amgylchedd y môr eu cynnal gyda nifer o ysgolion yn 2012.*
- Annual biodiversity seminars for six formers have taken place for the past 10 years organised by CCC and the WWT.
- A presentation for year 10 pupils on biodiversity in Carmarthenshire, produced to fit in with curriculum requirements, has been produced by CCC.
- Sessions on the importance of the marine environment have been held with a number of schools in 2012.

Gan ymgynghori â chominwyr lleol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, a chan weithio gyda Commons Vision Ltd, mae'r Cyngor yn helpu i adfer y gors, a oedd wedi dirywio, sydd ar gomin Pyllau Cochion. Bydd y ffosydd yn cael eu cau'n rhannol er mwyn cadw'r dŵr ar y comin. Mae corsydd yn storio symiau sylweddol o garbon ac maent yn storio dŵr fel sbwng, gan leihau perygl llifogydd.

The council, in consultation with local commoners and CCW, and working with Commons Vision, is helping to restore the degraded bog at Pyllau Cochion common. Ditches are to be partially blocked to encourage water retention within the common. Bogs store significant amounts of carbon and store water like a sponge, reducing the risk of floods.



© S.Bosanquet



Mae Prosiect y Wiwer Goch yng Nghanolbarth Cymru wedi bod yn gweithio i warchod yr anifail prin hwn a hynny ar un o dri safle sy'n allweddol i'r anifail yng Nghymru. Yn 2012 cafodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru gyllid hollbwysig i gynnal prosiect treialu ym mhen uchaf dyffryn Cothi. Gerllaw, mae'r modd cydnaws y mae rheolwr lleol yn rheoli coedwig wedi golygu bod 12 gwiwer goch wedi'u dal mewn coetir lleol.

The Mid Wales Red Squirrel Project has been working to conserve this rare animal in one of three key sites for it in Wales. In 2012 the Wildlife Trust obtained vital funding to undertake a pilot project in the upper Cothi valley. Nearby sympathetic forest management by a local manager has resulted in 12 red squirrels being trapped in a local woodland.

Treuliodd Butterfly Conservation a gwirfoddolwyr pybyr bob gaeaf yn chwilio am wyau'r iâr fach yr haf swil, y brithribyn brown, yn Sir Gaerfyrddin. Mae eu gwaith yn golygu ein bod yn gwybod llawer mwy nawr am y manau a'r modd y mae'r iâr fach yr haf brin hon yn byw yn y sir a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i'w gwarchod.

Butterfly Conservation and stalwart volunteers spend each winter searching for the eggs of the elusive brown hairstreak butterfly in Carmarthenshire and helping with important habitat management. Their work means that we now know much more about where and how this rare butterfly lives in the county and what we need to do to conserve it.



© D. Rees



© J. Baker

Rydym yn ffodus bod gennym nifer o grwpiau gwarchodaeth lleol yn y sir. Mae Naturiaethwyr Llanelli yn cynnal teithiau cerdded a sgysiau bob blwyddyn. Hefyd mae mwy a mwy o grwpiau yn canolbwyntio ar rywogaethau penodol neu grwpiau penodol o rywogaethau. Arweinir y rhain gan bobl leol, frwd ac maent yn rhoi cyfle i bobl gymryd rhan a dysgu am fywyd gwyllt yn y sir – mae grwpiau sy'n canolbwyntio ar bathewod, ffyngau, ystlumod, gwyfynod ac adar. Ewch i wefan www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk i gael gwybod rhagor.

We are lucky to have a number of local conservation groups in the county. The Llanelli Naturalists hold walks and talks each year. There are also an increasing number of groups that focus on a specific species or group of species. These are led by local enthusiasts and give people a chance to get involved and learn more about wildlife life in the county - there are groups that focus on dormice, fungi, bats, moths and birds. Go to www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk to find out more.

Yn Llanelli mae un o'r poblogaethau pwysicaf o lygoden y dŵr yn y Deyrnas Unedig. Yn 2012 cynhaliodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin brosiect i asesu cynefin llygoden y dŵr yn Llanelli. Bydd y gwaith hwn o gymorth inni nodi safleoedd lle gallwn helpu llygoden y dŵr ond hefyd gall ddod â buddion o ran storio dŵr ac atal llifogydd.

Llanelli has one of the most important water vole populations in the UK. In 2012 the Wildlife Trust (WT), EAW and CCC undertook a project to assess the water vole habitat in Llanelli. Through this work will help us identify sites where we can help water voles but may also have benefits for water storage and flood prevention.



© H. Perkins, WT

Mae glaswelltir corslyd yn gynefin pwysig yn y sir. Yn ogystal â bod yn gynefin i fritheg y gors, sy'n iâr fach yr haf brin, mae'r cynefin hwn yn storio dŵr a charbon. Fel rhan o Brosiect Glaswelltiroedd Gwendraeth yn 2012, mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Glaswelltiroedd wedi sicrhau 100 hectar o laswelltir a reolir yn briodol drwy ffensio, pori a gwaredu prysgwydd.

Marshy grassland is an important habitat in the county. As well as the habitat for the rare marsh fritillary butterfly, this habitat stores water and carbon. As part of the Gwendraeth Grasslands Project in 2012 the WT, NBGW, PONT and the Grasslands Trust secured 100 Ha of grassland under suitable management through fencing, grazing and scrub removal.



Mae llythyron newyddion yn cael eu llunio bob dau fis ynghylch materion bioamrywiaeth. Diben y rhain yw hyrwyddo'r gwaith cadwraeth sy'n digwydd yn y sir ynghyd â rhoi sylw i faterion ym maes cadwraeth sy'n peri pryder ac i arolygon/prosiectau y gall pobl gyfrannu atynt.

Bimonthly biodiversity newsletters are produced by the biodiversity officer. These promote the conservation work taking place in the county and highlight issues of conservation concern and surveys/projects that people can get involved with. Contact Biodiversity@carmarthenshire.gov.uk if you would like to subscribe!



Safle sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n gyforiog o fywyd gwylt yw Morfa Berwig. Mae Cadwch Gymru'n Daclus a'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â gwirfoddolwyr er mwyn gwella'r llwybrau ym Morfa Berwig ac er mwyn rheoli ymyl y ffosydd ar gyfer llygod pengrwn y dŵr sy'n byw yma. Yn ogystal mae dwy rywogaeth o greaduriaid di-asgwrn-cefn yma nad ydynt i'w cael unman arall yng Nghymru!

Morfa Berwig is a council-owned site that is rich in wildlife. This year KWT and the Council have worked with volunteers to improve the paths here and manage the ditch-side habitat for the water voles that live here. There are two species of invertebrate here that are found nowhere else in Wales!